## ADRODDIAD I FWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU

**17 Chwefror 2023**

| | |
|---|---|
| TEITL: | Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 |
| AWDUR: | Duncan Hall – Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael – Ceredigion |

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

1.1. I ystyried ac i gymeradwyo y Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2022.

**2. Penderfyniad(au) a Geisir**

2.1. I gymeradwyo y Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2022.

**3. Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol**

3.1. Mae rheoliad 10(1) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Ariannol Cyfrifol Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru lofnodi a dyddio'r datganiad o gyfrifon, ac ardystio ei fod yn cyflwyno darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn y mae'n berthnasol iddi, ac o incwm a gwariant y corff hwnnw am y flwyddyn honno.

3.2. Mae trafodion ariannol Cyd Bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 wedi eu crynhoi yn y Ffurflen Flynyddol, sydd wedi ei gynnwys yn Atodiad 2.

3.3. Mae Archwilio Cymru wedi archwilio y Ffurflen Flynyddol ac mae eu adroddiad wedi ei gynnwys yn Atodiad 1. Mae’r tystysgrif a’u barn archwiliad yn datgan – “Ein bwriad yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad diamod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 ac nid oes unrhyw faterion o ran y farn yr ydym am dynnu eich sylw ati.”

**4. Argymhellion**

4.1. Fod y Bwrdd yn cymeradwyo y Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2022.

**5. Goblygiadau Cyfreithiol**

5.1. Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

## 6. Goblygiadau Adnoddau Dynol

6.1. Does dim goblygiadau AD.

## 7. Goblygiadau Ariannol

7.1. Ddim yn briodol

## 8. Atodiadau

- Atodiad 1: Tystysgrif a barn Archwilio Cymru
- Atodiad 2: Ffurflen flynyddol Tyfu Canolbarth Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022